# Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

## Bwrdd Ymgynhorol Sector Preifat – Rôl Ymgynghori

Canllawiau a Manyleb

**Version 2**
26 Mawrth 2024

# Mynegai

**Canllawiau a Manyleb** ........ 2
**Cefndir** ........ 2
**Llywodraethu** ........ 2
**Rôl Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru** ........ 4
**Meini Prawf Dethol** ........ 5
**Amserlenni'r Cyfarfodydd** ........ 5
**Cydnabyddiaeth** ........ 5
**Cytundeb hyfforddiant ac ymgynghorwyr** ........ 5
**Y Broses Ddethol** ........ 6

# Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

# Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat – Rôl Ymgynghorydd

# Canllawiau a Manyleb

## Cefndir

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol drwy Reoliadau (Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol).

Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Byddant hefyd yn gallu gwneud pethau i hybu llesiant economaidd eu hardaloedd. Yn wahanol i drefniadau cyd-bwyllgor eraill, mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gyrff corfforaethol ar wahân sy'n gallu cyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, ac ymgymryd â swyddogaethau.

Nod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yw cyflawni ei weledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2035.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd yn adeiladu ar drefniadau partneriaeth ranbarthol cryf sydd eisoes ar waith i wneud cynnydd mewn meysydd allweddol gan gynnwys:

- Datblygu ymhellach gynllunio strategol rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth;
- Cyflawni dyheadau rhanbarthol ar gyfer ynni a datblygiad economaidd, a
- Paratoadau ar gyfer cynllun datblygu strategol cyntaf erioed y rhanbarth.

Mae tri amcan llesiant wedi'u gosod i lywio'r gwaith cychwynnol, er y caiff y rhain eu hadolygu wrth i'w gwaith aeddfedu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben yn barhaus. Nodir isod yr amcanion llesiant er hwylustod:

- **Amcan 1 Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol a Strategaeth Ynni Rhanbarthol**
  Cydweithio i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol a'r Strategaeth Ynni Ranbarthol, a thrwy hynny wella llesiant economaidd datgarboneiddio De-orllewin Cymru i'n cenedlaethau i ddod.
- **Amcan 2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru**
  Llunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n seiliedig ar gydweithio ac yn galluogi darparu system drafnidiaeth sy'n dda ar gyfer ein cenedlaethau o bobl a chymunedau presennol ac i'r dyfodol, yn dda i'n hamgylchedd ac yn dda i'n heconomi a'n lleoedd (gwledig a threfol).
- **Amcan 3 Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer De-orllewin Cymru**
  Llunio Cynllun Datblygu Strategol cadarn y gellir ei gyflenwi, ei gydgysylltu ac sy'n arbennig yn lleol ar gyfer De-orllewin Cymru a sefydlwyd drwy ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid ac sy'n nodi'n glir beth yw maint a lleoliad twf y dyfodol ar gyfer ein cenedlaethau'r dyfodol.

## Llywodraethu

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd

Port Talbot. O ran rhai swyddogaethau cynllunio datblygu, mae Parc Cenedlaethol Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn aelodau.

Mae aelodau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn cynnwys: Arweinwyr Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Dinas a Sir Abertawe ynghyd ag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Bryncheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Cyfarfu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2022 ac ym mis Hydref 2022, cytunodd ar ddull ar gyfer penodi cynrychiolwyr o'r sector preifat i Fwrdd Ymgynghorol, ynghyd â rhoi statws cyfetholedig i gadeirydd y bwrdd ymgynghorol hwn ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ar sail nad yw'n pleidleisio yn amodol ar dderbyn cytundeb cyfethol wedi'i lofnodi. Cymeradwywyd Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2022 Advisers Report.pdf (npt.gov.uk).

Roedd y Cytundeb Cydweithio ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gofyn am sefydlu Bwrdd Strategaeth Economaidd, a bu'n rhaid i Lywodraethau'r DU a Chymru gytuno ar ei aelodaeth. Cytunwyd ar aelodaeth yr Bwrdd Strategaeth Economaidd ym mis Tachwedd 2017. Mae gan y saith aelod o'r Bwrdd Strategaeth Economaidd ddiddordeb mewn cyfranogiad ehangach yng ngweithgareddau'r Cyd-bwyllgor ac felly nhw fydd aelodau craidd y bwrdd ymgynghorol ar gyfer y Cyd-bwyllgor. Fodd bynnag, mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi nodi angen i ehangu cynrychiolaeth - yn enwedig o ran arbenigedd ym meysydd trafnidiaeth, cynllunio a defnydd tir ac ynni, yn ogystal â meysydd ychwanegol eraill, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) sectorau adeiladu, digidol, creadigol a thwristiaeth.

**Rôl Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru**

Dyma'r pwrpas:

a) Cynnal partneriaeth ymgynghorol agos â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Swyddogion Gweithredol yr holl sefydliadau sy'n gysylltiedig â Chyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru sy'n cefnogi cynllunio datblygiad strategol, cynllunio trafnidiaeth, llesiant economaidd ac ynni drwy is-bwyllgorau sefydledig.
b) Rhoi cipolwg allanol ar y farchnad a gwybodaeth benodol am bynciau a mentrau allweddol, a deallusrwydd, i gefnogi Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ac aliniad i strategaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol.
c) Sefydlu grwpiau gorchwyl strategol pan fo'n ofynnol i ddarparu cyngor â ffocws, yn enwedig ynghylch cyfleoedd ariannu ysgogiad fel Innovate UK neu Gronfa Strategol Ranbarthol.
d) Darparu cyflwyniadau i'r farchnad, y rhwydwaith, buddsoddi ac ariannu.
e) Sicrhau bod cydweithio'n ychwanegu gwerth a sicrhau'r potensial mwyaf posibl gyda chyfranogiad a chysylltiadau ymhlith rhanddeiliaid allweddol.

f) Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid presennol a phartneriaid posibl i nodi cyfleoedd a risgiau'r farchnad.

g) Sicrhau cyfathrebu clir a thryloyw gyda'r trefniadau llywodraethu a chyrff allanol.

h) Gweithredu fel llysgenhadon rhanbarthol Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i godi a hyrwyddo proffil y rhanbarth ar lefel genedlaethol ac o fewn y gymuned fusnes.

i) Rhoi cyngor ac arweiniad drwy gydol y broses o ddatblygu strategaeth ranbarthol a mentrau buddsoddi allweddol.

j) Darparu arweinyddiaeth, mewnwelediad a deallusrwydd ar draws y rhanbarth ac mewn perthynas â marchnadoedd allanol ac amgylcheddau polisi gwleidyddol.

Bydd gan Gynrychiolwyr y Sector Preifat hawl i fynd i unrhyw is-bwyllgor o Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i gyfrannu (heb hawl pleidleisio) ar gais Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

**Rôl Aelod o'r Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat**

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn ceisio penodi hyd at ddeuddeg aelod sy'n ffurfio'r Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat i gefnogi'r weledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2035.

**Meini Prawf Dethol**
Bydd yr holl fynegiannau o ddiddordeb yn cael eu hasesu yn ôl y meini prawf canlynol:

**Sgiliau, Nodweddion a Phrofiad Hanfodol**

- Gwybodaeth a phrofiad ym meysydd Trafnidiaeth, Cynllunio a Defnyddio Tir ac Ynni. Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gennych hefyd os oes gennych arbenigedd mewn meysydd ychwanegol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y sectorau adeiladu, digidol, creadigol a thwristiaeth.

- Profiad helaeth yn y sector preifat.

- Ethos partneriaeth ac arweinyddiaeth gref

- Dangos dealltwriaeth o'r amgylchedd strategol ehangach ac ystyried hyn wrth wneud argymhellion.

- Y gallu i gyfleu negeseuon cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cyrmu yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu'r Iaith Gymraeg ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu bod yn medru gweithio'n Saesneg neu'n Gymraeg.

**Amserlenni'r Cyfarfodydd**
Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cyfarfod bob chwarter yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarfodydd ychwanegol a fydd yn cael eu galw i fynd i'r afael â materion penodol. Lle bydd angen cyfarfod arbennig, caiff hwn ei ymgynnull gan Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. Oni hysbysir i'r gwrthwyneb, bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal o bell drwy Microsoft TEAMS.

**Cydnabyddiaeth**
Byddai ymgynghorwyr penodedig ac aelodau cyfetholedig yn swyddi di-dâl fodd bynnag byddent yn gallu hawlio treuliau fel treuliau teithio, sydd o fewn cyllideb Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ond rhagwelir y bydd mwyafrif y cyfarfodydd o'r fath yn digwydd yn rhithwir. Mae gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru brotocol treuliau ar waith.

**Cytundeb hyfforddiant ac ymgynghorwyr**
Bydd pecyn hyfforddi wedi'i dargedu/pwrpasol yn cael ei ddarparu gan y Cyd-bwyllgor. Mae angen mesurau i sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau a allai godi o rôl ymgynghorol yn cael ei reoli a'i weinyddu'n briodol. Yn unol â hynny, gofynnir i bob cynrychiolydd o'r sector preifat lofnodi Cytundeb Ymgynghorwyr yn eu gorfodi i gydymffurfio

ag egwyddorion sylfaenol Côd Ymddygiad Aelodau y mae'n rhaid i aelodau cyfetholedig gytuno iddynt.

**Y Broses Ddethol**
Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan banel o gynrychiolwyr, ac yn dilyn hynny byddant yn cael eu cyfweld gan randdeiliaid a swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. Bydd adroddiad yn cael ei lunio i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i gadarnhau penodiadau cyffredinol wedyn.

Y bwriad yw cwblhau'r broses recriwtio erbyn canol Medi 2024.